PWYLLGOR AMDDIFFYN Y CYHOEDD

DYDD MAWRTH, 7 MEHEFIN 2016

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Parry(Caedeirydd) |
| | Y Cynghorwyr Manzoor Ahmed, Boyle, Goddard, Hudson, Kelloway, Lloyd a/ac Murphy |

1 : CADEIRYDD

Nododd y Pwyllgor bod y Cynghorydd Parry wedi'i benodi yn Gadeirydd y Pwyllgor yng Nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 26 Mai 2016.

1 : PENODI'R PWYLLGOR

Nododd y Pwyllgor bod yr Aelodau canlynol wedi eu penodi i'r Pwyllgor yng nghyfarfod y Cyngor ar 26 Mai 2016:

Y Cynghorwyr Parry (Cadeirydd), Manzoor Ahmed, Boyle, Goddard, Hudson, Kelloway, Lloyd, Morgan, Murphy (Is-gadeirydd) a Simmons

3 : CYLCH GORCHWYL

Nodwyd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor.

4 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Morgan a Simmons.

5 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

6 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ebrill 2016 a 10 Mai 2016 yn gofnod cywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

7 : CAIS AM GERBYD MAWREDDOG - TOYOTA PRIUS

PENDERFYNWYD – Y dylid trin y materion canlynol fel y nodir:

1. Toyota Prius

Cais am statws cerbyd mawreddog gyda chyfyngiad oedran o 10 mlynedd i'w gymeradwyo.

## 8 : AMRYWIO TRWYDDED FASNACHU AR Y STRYD

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor bod masnachwr wedi gwneud cais i wyro ei drwydded fasnachu ar y stryd er mwyn caniatáu gwerthu hufen iâ yn ei lain. Yn ogystal, rhoddwyd gwybod i Aelodau fod y Pwyllgor wedi cymeradwy adleoli'r masnachwr o'r Sgwâr Canolog i Stryd Working oherwydd y gwaith ail-ddatblygu yn ardal y Sgwâr Canolog. Rhoddwyd gwybod i aelodau nad oedd unrhyw sail i wrthod y cais.

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo'r cais.

## 9 : ADOLYGU FFIOEDD A CHOSTAU CYFFREDINOL

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ac roedd gofyn iddynt ystyried cymeradwyo ffioedd newydd ar gyfer swyddogaethau trwyddedu yn dilyn adolygiad o'r ffioedd trwyddedu cyffredinol. Rhoddwyd gwybod i aelodau fod y Pwyllgor wedi awdurdodi cyflwyniad y ffioedd cyfredol yn ei gyfarfod ar 3 Mawrth 2015. Rhoddwyd y ffioedd ar waith ar 1 Ebrill 2015.

Roedd yr adroddiad yn trafod y ffioedd a'r costau diwygiedig oedd wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio'r arweinlyfr oedd wedi'i ddatblygu gan Banel Arbenigwyr Trwyddedu Cymru. Cafodd y dull a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r ffioedd ei atodi i'r adroddiad yn Atodiad A.

Trafododd yr Aelodau y ffioedd a chostau diwygiedig, gan nodi bod ychydig o amrywiaeth rhwng y ffioedd cyfredol a'r ffioedd diwygiedig. Cadarnhaodd Swyddogion fod ychydig o amrywiaeth yn ddisgwyliedig gan fod y ffioedd wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio nifer o ffactorau sy'n gallu newid o flwyddyn i flwyddyn, megis nifer y sefydliadau, nifer y ceisiadau, nifer y cwynion.

PENDERFYNWYD – Y dylid cymeradwyo'r ffioedd a'r costau diwygiedig yn yr adroddiad a'u rhoi ar waith ar 1 Gorffennaf 2016.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.00 am